**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Elin Jones AC, y Llywydd

8 Rhagfyr 2017

Annwyl Lywydd

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Arweiniad a Hawliadau Ariannol

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Rhagfyr mewn perthynas â'r Memorandwm uchod, a drafodwyd gennym yn ein cyfarfod ar 7 Rhagfyr.

Wrth adrodd ar y Memorandwm cychwynnol ym mis Gorffennaf 2017, gwnaethom ofyn am eglurder gan Lywodraeth Cymru ar nifer o faterion gan gynnwys ei dadansoddiad o sut yr oedd y darpariaethau y mae angen cydsyniad y Cynulliad arnynt yn ymwneud â meysydd pwnc datganoledig a nodwyd yn ei memorandwm. Yn benodol, sut yr oedd y darpariaethau'n ymwneud â phwnc 4 Datblygu Economaidd o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Wrth ateb (mewn llythyr dyddiedig 23 Awst 2017) ni roddodd y Llywodraeth sylw uniongyrchol i'r mater hwn. Wrth adrodd ar y Memorandwm, dywedasom nad oedd rheswm pam y dylai'r Cynulliad wrthod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ond y gallai Aelodau ddymuno gofyn am eglurder yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y mater hwn a oedd yn weddill. Gan nad yw'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Memorandwm gwreiddiol wedi digwydd eto, mae'r eglurhad hwn yn dal heb ei roi.

Yn ein cyfarfod ar 7 Rhagfyr, cytunwyd i ofyn am eglurhad gan Lywodraeth Cymru ar y mater hwn a oedd yn weddill, fel mater o frys. Byddwn hefyd yn trefnu i'r

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCymunedau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

Memorandwm gael ei ystyried yn ein cyfarfod yr wythnos nesaf, er mwyn sicrhau, os caiff y Memorandwm ei gyfeirio atom i graffu arno, ein bod mewn sefyllfa i'w drafod yn fanylach.

Fodd bynnag, hyd yn oed o ystyried hyn, gan mai 11 Ionawr yw ein cyfarfod cyntaf fel pwyllgor ar ôl y toriad y Nadolig, ni fyddai'r amserlen bresennol yn caniatáu inni gyflwyno adroddiad erbyn 9 Ionawr. Gan ei bod yn ymddangos bod eich llythyr yn dangos nad oes angen ei ystyried erbyn 9 Ionawr, byddem yn awgrymu bod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn yn cael ei symud yn ôl i 16 Ionawr, a fyddai'n ein galluogi i ystyried y Memorandwm atodol, gofyn am eglurhad gan Lywodraeth Cymru a chyflwyno'r adroddiad. Byddai hyn yn dal i sicrhau bod gwaith craffu'n cael ei wneud mewn llai na chwe wythnos eistedd.

Yn gywir

John Griffiths AC
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

We welcome correspondence in Welsh or English